# Atodiadau: Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys atodiadau o'r adroddiad llawn: Forrester, D., Wood, S., Waits, C., Jones, R., Bristow, D., a Taylor-Collins, E. (2021). **Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Atodiad A: Arolwg

### Cliciwch ddwywaith ar y ddelwedd i agor yr arolwg llawn

4/7/2021 Qualtrics Survey Software

English (United Kingdom)

**Welcome**

CASCADE
Children's Social Care Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Children's Social Services and Care Rates in Wales**

Click the arrow to begin

**About**

**About the study**
The number of children in care in Wales has increased in recent years, and there are differences between rates among local authorities. Evidence suggests that a significant proportion of this variation is the result of differences in practice. Our aim is to understand factors influencing practice from the "ground up" including differences between local authorities. This survey is designed for social workers, managers, and senior social services managers in Wales.

This study is funded by the Welsh Government and carried out by the Children's Social Care Research and Development Centre (CASCADE) and the Wales Centre for Public Policy (WCPP)

https://socsi.eu.qualtrics.com/Q/EditSection/Blocks/Ajax/GetSurveyPrintPreview?ContextSurveyID=SV_ehUut0cUZAbwf9r&ContextLibraryID=U... 1/19

# Atodiad B: Ymatebwyr

### Tabl B1: Rhywedd yr ymatebwyr

| | N | % |
|---|---|---|
| **Benywaidd** | 657 | 83.2 |
| **Gwrywaidd** | 126 | 15.9 |
| **Eraill** | 1 | 0.1 |
| **Ar goll** | 6 | 0.8 |

### Tabl B2: Oedran yr ymatebwyr

| | N | % |
|---|---|---|
| **18-24** | 10 | 1.3 |
| **25-34** | 180 | 22.7 |
| **35-44** | 233 | 29.4 |
| **45-54** | 214 | 27.0 |
| **55-64** | 142 | 17.9 |
| **65-74** | 11 | 1.4 |
| **Ar goll** | 2 | 0.3 |

### Tabl B3: Ethnigrwydd yr ymatebwyr

| | N | % |
|---|---|---|
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | 7 | 0.9 |
| **Du – Affricanaidd/Caribïaidd/Prydeinig** | 4 | 0.5 |
| **Grwpiau cymysg/amlethnig** | 11 | 1.4 |
| **Grŵp ethnig arall** | 4 | 0.5 |
| **Gwyn** | 756 | 95.5 |
| **Ar goll** | 10 | 1.3 |

### Tabl B4: Rôl gyfredol yr ymatebwyr

| | N | % |
|---|---|---|
| **Gweithiwr cymdeithasol neu uwch-weithiwr cymdeithasol** | 354 | 43.5 |
| **Myfyriwr gwaith cymdeithasol** | 24 | 2.9 |
| **Rheolwr tîm/dirprwy reolwr tîm** | 160 | 19.7 |

| | | |
|---|---|---|
| **Uwch-reolwr/pennaeth gwasanaeth/cyfarwyddwr gwasanaeth** | 74 | 9.1 |
| **Arall (nodwch)**[1] | 180 | 22.7 |

### Tabl B5: Y Tîm Cyfredol* o ymatebwyr

| | N | % |
|---|---|---|
| **Plentyn mewn angen/amddiffyn plant** | 176 | 22.2 |
| **Gwasanaethau anabledd** | 79 | 10.0 |
| **Maethu a mabwysiadu** | 98 | 12.4 |
| **Plant sy'n derbyn gofal** | 95 | 12.0 |
| **Atgyfeirio ac asesu** | 73 | 9.2 |
| **Arall (rhowch fanylion)** | 197 | 24.9 |

*Gweithwyr yn unig

### Tabl B6: Yr ymatebydd yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig?

| | N | % |
|---|---|---|
| **Ydy** | 584 | 73.7 |
| **Nac ydy** | 208 | 26.3 |

### Tabl B7: Lefel yr addysg a ddelir gan yr ymatebwyr

| | N | % |
|---|---|---|
| **BA/BSc** | 431 | 54.4 |
| **MA/MSc** | 190 | 24.0 |

[1] Roedd y rhai yn y categori "arall" yn cwmpasu llawer o rolau, o Swyddogion Adolygu Annibynnol i wasanaethau cymorth amrywiol i deuluoedd. Cafodd gweinyddwyr neu'r rhai nad oeddent wedi nodi eu rôl eu heithrio o bob dadansoddiad (n=22).

| | | |
|---|---|---|
| **Dim gradd/tystysgrif/diploma** | 168 | 21.2 |
| **PhD/Doethuriaeth Broffesiynol** | 3 | 0.4 |

## Cynrychioldeb y sampl astudio

Mae'r data diweddaraf (2019) ar ystadegau'r gweithlu cymdeithasol yn dangos bod 3,916 o unigolion yn gweithio yn y gwasanaethau cymdeithasol plant (StatsCymru, 2019), ynghyd â 1,694 o weithwyr cymdeithasol cymwysedig (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2020). Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, gan ddileu ymatebwyr a ddisgrifiodd eu rôl yn "gweinyddol, arall" (ond a adawodd y disgrifiad yn wag) ac arweinwyr (sydd wedi'u categoreiddio ar wahân gan StatsCymru), mae gennym 718 ar ôl, sef cyfradd ymateb o tua 18.3%. Yn achos gweithwyr cymdeithasol cymwysedig (n=584) sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol Plant, ein cyfradd ymateb yw 34.5%.

Roedd cyfraddau ymateb yr ALlau yn amrywio o 2.2% i 58.0% (gweler Tabl B8). Byddai ALl â chyfradd ymateb o 2.2% wedi cael ei eithrio o'r dadansoddiad cymharol o ALlau, ond, mewn gwirionedd, nid oedd yn y naill grŵp na'r llall. Er mwyn cyfrifo'r maint sampl lleiaf a oedd yn angenrheidiol i gael cyfradd ymateb ddilys a sefydlog, defnyddiwyd cyfrifiad maint sampl ac iddo ffin cyfeiliornad o 5%, lefel hyder o 95%, a gwyriad safonol o 0.5 (Smith, 2020). Yn seiliedig ar y meintiau poblogaeth a nodir uchod, ac er mwyn cynhyrchu canlyniadau a fyddai'n cynrychioli'r cyfartaleddau poblogaeth hyn, roedd arnom angen sampl o 350 yn achos pob gweithiwr Gofal Cymdeithasol Plant a 314 yn achos gweithwyr cymdeithasol cymwysedig.

Mae ein sampl astudio hefyd yn cynrychioli demograffeg y gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Dengys data fod 82.3% ac 17.7% o weithwyr cymdeithasol Cymru yn fenywod ac yn ddynion yn y drefn honno (StatsCymru, 2020). Mae ein sampl o weithwyr cymdeithasol cymwysedig yn cynnwys 84.5% o fenywod a 15.3% o ddynion.[2] Yn yr un modd, mae ein proffil oedran hefyd yn gynrychioliadol. Roedd mwyafrif y gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn ein hastudiaeth rhwng 35 a 44 oed (29.3%) a 45-54 oed (26.2%); oedran cyfartalog gweithiwr cymdeithasol cymwysedig yng Nghymru yw 46. Mae ein sampl ychydig yn wahanol i gyfartaledd Cymru yn achos ethnigrwydd: Roedd 95.9% o'r gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn ein sampl yn wyn, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 88% (nid oes dadansoddiad yn ôl sector ar gael, felly nid yw'n bosibl dweud pa mor gynrychioliadol yw hyn o Ofal Cymdeithasol Plant). Yn olaf, roedd data coll yn amrywio o 1% i 16%.

[2] Nododd un cyfranogwr ei rywedd yn 'arall'.

Wrth i'r arolwg fynd rhagddo, cynyddodd swm y data coll, ond nid oedd yna unrhyw dystiolaeth o fwy o ddata coll mewn rhai grwpiau demograffig neu rai awdurdodau lleol.

### Tabl B8: Cyfradd ymateb yn ôl ALl

| | Nifer y gweithwyr Gofal Cymdeithasol Plant[a] | Ein sampl* | Cyfradd ymateb yn ôl ALl (%) |
|---|---|---|---|
| **ALl1** | 179 | 50 | 27.9 |
| **ALl2** | 142 | 35 | 24.6 |
| **ALl3** | 242 | 43 | 17.8 |
| **ALl4** | 277 | 47 | 17.0 |
| **ALl5** | 279 | 22 | 7.9 |
| **ALl6** | 122 | 12 | 9.8 |
| **ALl7** | 120 | 34 | 28.3 |
| **ALl8** | 56 | 19. | 33.9 |
| **ALl9** | 114 | 38 | 33.3 |
| **ALl10** | 122 | 53 | 43.4 |
| **ALl11** | 91 | 29 | 31.9 |
| **ALl12** | 59 | 18 | 30.5 |
| **ALl13** | 144 | 15 | 10.4 |
| **ALl14** | 299 | 39 | 13.0 |
| **ALl15** | 217 | 28 | 12.9 |
| **ALl16** | 184 | 25 | 13.6 |
| **ALl17** | 194 | 52 | 26.8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ALl18** | 453 | 25 | 5.5 |
| **ALl19** | 231 | 5 | 2.2 |
| **ALl20** | 157 | 91 | 58.0 |
| **ALl21** | 127 | 18 | 14.2 |
| **ALl22** | 107 | 20 | 18.7 |
| **Cymru** | 3916 | 718 | 18.3 |

*Llai'r ymatebwyr a ddisgrifiodd eu rôl yn un weinyddol, arall (ond a oedd wedi gadael y disgrifiad yn wag) ac arweinwyr

[a] Ffynhonnell: StatsCymru (2019)

# Atodiad C: Y dulliau a'r modd y dadansoddwyd y data

## Datblygu'r arolwg

Ymgynghorwyd trwy gydol y broses o ddatblygu'r arolwg â grŵp rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys penaethiaid gwasanaethau plant, swyddogion Llywodraeth Cymru ac academyddion yng Nghymru. Nodwyd meysydd i'w cynnwys trwy adolygu'r llenyddiaeth, ymgynghori â'r grŵp rhanddeiliaid a chynnal cyfarfodydd â grŵp mamau CASCADE a oedd â phrofiad o Ofal Cymdeithasol Plant. Peilotwyd fersiwn hir gychwynnol o'r arolwg gan nifer bach o weithwyr cymdeithasol nad oeddent wedi'u lleoli yng Nghymru (n=5), ac yna aeth y grŵp rhanddeiliaid ati i'w threialu a rhoi sylwadau arni. Yn dilyn hyn, cafodd y cwestiynau eu gwneud yn eglur a'u mireinio, a dilëwyd sawl un i sicrhau y gellid llenwi'r arolwg yn gyflymach. Roedd yr holiadur yn cymryd tua 15 munud i'w llenwi, ac roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn gymhelliad i lenwi'r arolwg, cafodd yr ymatebwyr eu cynnwys mewn raffl elusennol, ac enillodd un ymatebydd fesul ALl gyfraniad o £250 i elusen o'i ddewis.

Darparwyd cymeradwyaeth foesegol gan bwyllgor moeseg Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.

## Mathau o ddata

Mae'r arolwg yn cynnwys pedwar math o ddata:

1. *Cwestiynau caeedig unigol* (sgoriau meintiol Likert) – yn ymwneud â barn ymatebwyr am ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch gofal a chyfraddau gofal.
2. *Ymatebion i astudiaethau achos byr* – pedwar ymateb i ddwy astudiaeth achos bortreadol, a gynlluniwyd i ennyn ymatebion gwahanol i senarios risg uchel.
3. *Gwerthoedd gweithwyr* – holiadur ac iddo dair is-raddfa a ddefnyddir mewn astudiaethau ymchwil rhyngwladol eraill i nodi gwerthoedd gweithwyr.
4. *Ymatebion ansoddol penagored*

I adlewyrchu materion allweddol a ystyrir yn berthnasol o ran dylanwadu ar gyfraddau gofal, datblygwyd cwestiynau caeedig yn dilyn adolygu'r llenyddiaeth a thrwy ymgynghori â’r grŵp rhanddeiliaid. Yna cawsant eu mireinio trwy'r broses dreialu.

Datblygwyd yr astudiaethau achos portreadol o astudiaeth beilot. Roedd yna ddau gam i’r broses hon. Yn y lle cyntaf, gofynnwyd i weithwyr a rheolwyr yng Nghymru ddarparu astudiaethau achos dienw ac anadnabyddadwy o deuluoedd lle'r oedd y broses o wneud penderfyniadau ynghylch gofal wedi bod yn anodd iddynt hwy neu eraill. Darparwyd wyth astudiaeth achos o'r fath, ac aethom ati wedyn i’w byrhau a'u haddasu ymhellach i sicrhau anhysbysedd. Yna ymatebodd 18 o weithwyr cymdeithasol yn Lloegr i’r wyth astudiaeth achos, a dewiswyd y ddwy astudiaeth achos a enynnodd yr ymatebion mwyaf amrywiol ar gyfer yr holiadur. Cafodd pob astudiaeth achos ymateb diymdroi ac ymateb tymor hwy. Cafodd yr ymatebion i'r astudiaethau achos eu graddio o 1-3 yn seiliedig ar lefel y parodrwydd i dderbyn risg, gyda 3 yn dynodi’r ymateb mwyaf "risg ganolog" (h.y. tynnu'r plentyn o'r cartref). Cyfrifwyd yr ymatebion cymedrig i'r astudiaethau achos fesul ymatebydd, gan roi ystyriaeth i’w "sgôr risg". Cafodd cysondeb mewnol y sgoriau risg ledled yr astudiaethau achos ei gyfrifo gan ddefnyddio Cronbach’s alpha (Cronbach, 1951).

Datblygwyd yr elfen gwerth y gweithiwr o waith Davidson-Arad a Benbenishty (2010). Dewiswyd tair is-raddfa agwedd a oedd yn cynnwys sawl cwestiwn (gweler Atodiad A i gael copi o'r arolwg gyda’r cwestiynau). Yn unol â chyfarwyddyd y grŵp llywio a chyda chyngor gan Benbenishty, cafodd rhai cwestiynau yn yr is-raddfeydd hyn eu grwpio i leihau nifer y cwestiynau a ofynnid ac i wneud yr arolwg yn fwy derbyniol ei hyd i ymatebwyr ei lenwi. Ym mhob un o'r meysydd hyn, cynhwyswyd agweddau cadarnhaol a negyddol (defnyddiwyd codio gwrthdro i greu mynegai ar gyfer pob agwedd). Roedd yr is-raddfeydd yn cynnwys sawl cwestiwn ar thema benodol. Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddynodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â phob

eitem, a hynny ar raddfa pum pwynt, sef o 1 = anghytuno'n gryf, i 5 = cytuno'n gryf. Defnyddiwyd Cronbach's alpha i fesur cysondeb mewnol y raddfa. Dyma'r is-raddfeydd a'r sgoriau Cronbach's alpha cysylltiedig: *Yn erbyn tynnu plant sydd mewn perygl o'r cartref* (0.6); *Asesiad cadarnhaol o allu gofal maeth i hyrwyddo datblygiad a llesiant plant* (0.6); *Yn ffafrio ailuno a pharhad gorau posibl gofal amgen*(0.5). Mae cyfernod dibynadwyedd 0.6 y raddfa yn golygu bod gan y raddfa gysondeb mewnol cyfartalog. Er bod gan gyfernod o 0.5 gysondeb mewnol cymharol isel, mae'n ddigonol ac yn dal i fod yn fesur defnyddiadwy. Cafodd sgoriau cymedrig eu cyfrifo ar gyfer pob is-raddfa.

Roeddid yn anelu at ymatebion ansoddol penagored ar sawl pwynt yn yr arolwg. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am y cynnydd diweddar mewn cyfraddau gofal, ac ar ba gamau gweithredu a allai leihau cyfraddau gofal. Gofynnwyd iddynt hefyd am eu barn o ran a oeddent yn defnyddio fframweithiau ymarfer, a pha fframweithiau ymarfer oedd y rheiny.

## Pa mor ddilys a dibynadwy oedd mesurau'r astudiaethau achos?

Mae gan ymatebion i astudiaethau achos rywfaint o "ddilysrwydd ar yr wyneb" gan y gellid tybio bod y ffordd y mae gweithwyr yn ymateb yn arwydd o'r ffordd y maent yn gwneud penderfyniadau gyda theuluoedd go iawn. Roedd iddynt hefyd "ddilysrwydd gwahaniaethol" – mewn geiriau eraill, roeddent wedi ennyn amrywiaeth o ymatebion. Yn ystadegol, roedd gan y sgôr risg gyfunol gysondeb mewnol cymharol isel, er ei fod yn dderbyniol (Cronbach's alpha= 0.5). Mae hyn yn golygu bod ateb unigolyn i un cwestiwn yn tueddu i ymwneud â'i ateb i gwestiynau eraill yr astudiaeth achos, ond bod y berthynas yn gymharol wan. Felly, aethom ati i brofi ymatebion i bob astudiaeth achos, yn ogystal â sgôr astudiaeth achos gyfun. Gwelsom wahaniaethau cryfach mewn ymateb i Astudiaeth Achos 2, ac felly defnyddiwyd hyn yn y rhan fwyaf o'r dadansoddiadau. Rydym weithiau hefyd yn cyfeirio at Astudiaeth Achos 1 neu'r sgôr gyfun.

O ystyried natur ddatblygiadol yr ymatebion i'r astudiaethau achos, buom hefyd yn archwilio pa un a oeddent yn gysylltiedig â nodweddion eraill ALlau. Roedd yna gysylltiad cadarnhaol rhwng mesurau'r astudiaeth achos ac amddifadedd mewn ALlau ($r_s$= 0.1, $p$=0.004). Mewn geiriau eraill, roedd ALlau mwy cefnog yn fwy tebygol o ymateb mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar risg. Gall hyn fod yn enghraifft o ffenomenon o'r enw y gyfraith ymyrraeth wrthdro, lle mae teuluoedd â phroblemau yn sefyll allan mewn ardaloedd â lefelau is o amddifadedd, ac felly'n fwy tebygol o fod yn destun amddiffyn plant neu ymyrraeth llys (Bywaters *et al.*, 2015). Mae hon yn berthynas wan, ac, o ystyried y ffaith nad yw'r mesur wedi'i ddilysu, dylem fod yn

ofalus iawn wrth ei ddehongli. Ond mae'n cyfeirio at rywfaint o'r cymhlethdod sy'n sail i'n dadansoddiad o'r berthynas rhwng ymatebion yr ymarferwyr a nodweddion yr ALlau.

## Lefelau'r dadansoddi

Cafodd ein dadansoddiad ei lywio a'i arwain gan y llenyddiaeth a thrwy fewnbwn gan y grŵp llywio. Cynhaliwyd y mathau canlynol o waith dadansoddi:

### *Dadansoddi disgrifiadol*

*Diben*: Rhoi trosolwg o farn gweithwyr ar ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau gofal, ymatebion gweithwyr i risg a gwerthoedd gweithwyr yng Nghymru, a bod yn sail ar gyfer y dadansoddiad cymharol a amlinellir isod.

*Dull gweithredu* Crynhowyd y data meintiol (cymedr, gwyriad safonol neu ddosbarthiad, yn dibynnu ar y newidyn). Mae'r holiadur gwerthoedd yn cyflwyno’r data cyffredinol a data’r is-raddfeydd. Darperir ymatebion i’r astudiaethau achos ar gyfer pob cwestiwn, pob astudiaeth achos ac yn gyffredinol. Cafodd y data ansoddol eu categoreiddio'n themâu ac is-themâu syml. Datblygwyd y codau trwy adolygiad thematig ailadroddol gan un ymchwilydd, a hwn wedyn yn cael ei wirio'n annibynnol gan ail ymchwilydd. Arweiniodd hyn at gyfuniad o rai themâu a ymddangosai’n debyg. Gallai codau lluosog fod yn bresennol ym mhob ymateb. Roedd ymatebion nad oeddent yn rhai y gellid eu codio wedi'u heithrio. Roedd y rhain fel arfer yn cynnwys ymatebion lle nad oedd gan yr ymatebydd ateb neu lle nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth i’w godio, e.e. "na"; "ddim yn berthnasol", "ansicr", "mynd i'r afael â'r uchod", ac ati.

### *Dadansoddi ffactorau*

*Diben:* Mae dadansoddi ffactorau yn symleiddio'r data trwy grwpio cwestiynau sy'n berthnasol i’w gilydd. Mae nifer llai o ffactorau yn sicrhau bod y canfyddiadau’n cael eu cyflwyno mewn modd symlach, ac yn arwain at ddadansoddiad cymharol eglurach.

*Dull gweithredu:* Defnyddiwyd dull Dadansoddi Ffactorau Archwiliadol (EPA) i ddeall strwythur sylfaenol y data a lleihau dimensiynoldeb y data. Mae’r EFA yn dechneg ystadegol a ddefnyddir i ganfod set lai o ffactorau sylfaenol (newidynnau cudd) sy'n esbonio'r cydamrywiad/gydberthynas ymhlith set fwy o newidynnau (Mehmetoglu a Jakobsen, 2017). Roeddem wedi mewnbynnu pob cwestiwn o'r arolwg am yr ALlau a'u harfer i’r dadansoddiad. Yn y lle cyntaf, defnyddiwyd matrics cydberthyniad, a oedd yn cynnwys yr holl newidynnau yr arsylwyd arnynt ynghylch yr ALlau a'u harfer,

i'w dadansoddi yn ôl ffactorau. Cynhwyswyd pob newidyn o'r arolwg, ac eithrio cwestiynau penodol am arweinwyr, a hynny am mai'r gweithwyr yn unig a oedd yn ateb y cwestiynau hyn. Y dull echdynnu ffactorau a ddefnyddiwyd oedd y prif ffactor (echelin), sy'n mewnosod amcangyfrifon o'r amrywiant cyffredin/a rennir (cymunedolrwydd) yng nghroesliniau'r matrics cydberthyniad cychwynnol. Cafodd 14 o ffactorau eu datgelu yn y data. Penderfynwyd ar nifer y ffactorau i'w cadw i ddechrau trwy ddefnyddio cyfuniad o'r rheol gwerth eigen, y prawf sgrïau a'r dadansoddiad cyfochrog. Awgrymodd y rhain y dylid cadw'r wyth ffactor cyntaf. Roeddent yn esbonio 93.5% o'r amrywiant yn y data. Er mwyn cael ateb ffactoraidd y gellid ei ddehongli'n haws, cafodd yr ateb ffactoraidd cychwynnol ei gylchdroi gan ddefnyddio cylchdro arosgo. Mae'n well cael cylchdro arosgo yn lle cylchdro orthogonol wrth fesur ffenomenon ymddygiadol gan ei bod yn fwy realistig i ffactorau (newidynnau cudd) fod yn lled gysylltiedig (Harman 1976).

## *Dadansoddi ffactorau cadarnhau*

Defnyddiwyd canlyniadau'r EPA i ddewis paramedrau ar gyfer dadansoddi ffactorau cadarnhau (CFA). Yna gwnaed defnydd o'r CFA i brofi dilysrwydd a dibynadwyedd ffactorau ac i bennu llwythi ffactorau. Dewiswyd newidynnau â llwythi ffactorau o dros 0.4 ar gyfer y model dadansoddi ffactorau cadarnhau cychwynnol (Mehmetoglu a Jakobsen, 2017). Amcangyfrifwyd y model trwy ddefnyddio'r tebygolrwydd mwyaf posibl. Aseswyd dibynadwyedd y ffactorau/raddfa gan ddefnyddio cyfernod dibynadwyedd Raykov (1997). Gollyngwyd ffactorau â chyfernodau dibynadwyedd llai na 0.7 o'r model. Aseswyd dilysrwydd cydgyfeirio a gwahaniaethu'r ffactorau trwy ddefnyddio *condisc* gorchmynion STATA . Mae hyn yn cyfrifo'r amrywiant cyfartalog a echdynnir (AVE) gan y newidyn cudd, a dylai hwn, er mwyn i ddilysrwydd cydgyfeirio'r ffactor fod yn bresennol, esbonio o leiaf 50% o'r amrywiant yn ei ddangosyddion cysylltiedig. Gadawodd hyn bedwar newidyn cudd.

Er mwyn sefydlu dilysrwydd gwahaniaethol, dylai'r newidynnau cudd fod yn wahanol i'w gilydd. Po uchaf yw'r gydberthynas rhwng newidyn cudd a'i ddangosyddion, o gymharu â'i gydberthynas â dangosyddion eraill yn y model, mwyaf gwahanol yw'r newidyn cudd. Er mwyn mesur hyn, dylai AVE y newidyn cudd fod yn fwy na'r gydberthynas sgwâr rhwng newidynnau cudd eraill yn y model. Dim ond ffactorau a sefydlodd ddilysrwydd gwahaniaethol a gafodd eu cynnwys. Profwyd ffit y model trwy ddefnyddio'r prawf chi-sgwâr ($X^2$), yr isradd sgwâr cymedrig gweddilliol safonedig, cyfeiliornad brasamcanol isradd sgwâr cymedrig, mynegai ffit cymharol a mynegai Tucker-Lewis. Daethom i'r casgliad bod ein model yn un da. Penderfynodd yr ymchwilwyr ar y labeli ar gyfer y pedwar ffactor yn seiliedig ar y newidynnau a gynhwyswyd (gweler yr adran Canfyddiadau yn y prif adroddiad).

## Dadansoddi cymharol

### *Dewis o ddadansoddiadau cymharol*

Wrth benderfynu ar y ffordd orau o grwpio ymatebion i'n helpu i ddeall gwahaniaethau mewn cyfraddau rhwng ALlau, penderfynasom beidio ag ymgymryd â rhai cymariaethau. Yn y lle cyntaf, nid aethom ati i gymharu ar lefel yr ALlau unigol (er y bydd yr ALlau unigol yn cael adborth ar eu canlyniadau o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau eraill). Y rheswm am hyn yw bod amrywiadau mewn cyfraddau ymateb a phwy a ymatebodd ym mhob awdurdod yn golygu y gallai cryn bwyll fod yn ofynnol wrth ddehongli canfyddiadau ar lefel awdurdodau unigol. Mae cymariaethau ALlau unigol hefyd yn cael eu cymhlethu gan y ffaith bod pob ALl yn unigryw a bod ffactorau lluosog yn dylanwadu ar gyfraddau gofal, yn enwedig amddifadedd. Felly, roedd yna debygolrwydd uchel o ganlyniadau negatif anghywir (h.y. peidio â nodi gwahaniaethau gwirioneddol yng nghanlyniadau'r arolwg mewn perthynas â chyfraddau gofal).


Dull sy'n fwy tebygol o nodi gwahaniaethau pwysig yw cyfuno ALlau tebyg a chymharu ymatebion ynddynt ag ymatebion mewn ALlau eraill – dadansoddiad rhwng grwpiau yn hytrach na dadansoddiad o ALlau unigol. Yr allwedd ar gyfer dadansoddiad o'r fath yw nodi grwpiau ystyrlon.

Cafodd ALlau â chyfraddau gofal cynyddol neu ostyngol eu nodi gan y grŵp llywio yn rhai sydd o ddiddordeb allweddol. Felly, nodwyd yr ALlau hynny sydd â chyfraddau gofal cynyddol sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (21%) yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ynghyd â'r rhai â gostyngiad o fwy na 10%. Roeddem am sicrhau bod cynnydd a gostyngiadau yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau cymharu – mewn geiriau eraill, roedd yn debygol y byddai yna wahaniaethau mewn ymarfer.

Un risg o ddefnyddio cymhariaeth o'r fath yw y gellid nodi bod ALlau a oedd â chyfraddau gofal anarferol bum mlynedd yn ôl (e.e. cyfraddau uchel iawn neu isel iawn) yn "cynyddu" neu'n "gostwng", tra eu bod, mewn gwirionedd, yn dychwelyd i'r cymedr. I wneud hyn, aethom ati i gyfrifo cyfradd gofal ddisgwyliedig ar gyfer pob ALl wedi i amddifadedd gael ei ystyried. Fel y trafodwyd yng Nghyflwyniad y prif adroddiad, mae lefelau sylfaenol amddifadedd yn cael dylanwad mor gryf ar gyfraddau gofal fel bod cymharu awdurdodau â chyfraddau gofal uchel neu isel yn gymhariaeth o amddifadedd uchel neu isel yn anad dim. Felly, cyfrifwyd y gyfradd gofal y gellid ei disgwyl yn seiliedig ar lefel yr amddifadedd yn yr awdurdod, ac yna nodwyd yr awdurdodau hynny a oedd yn amrywio'n sylweddol o hyn. Cyfrifwyd cyfraddau gofal a ragwelid trwy ddefnyddio hafaliad atchwel llinol (Ffig. C1) ar gyfer cyfraddau plant mewn gofal ac amddifadedd (MALIC 2019). Cafodd y gweddillebau

(y gwahaniaeth rhwng cyfraddau gofal yr arsylwyd arnynt a chyfraddau gofal a ragwelwyd) eu cyfrifo.

**Ffigur C1. Plot gwasgariad, gyda phlot rhagfynegi llinol ar gyfer y gyfradd gofal ac amddifadedd yn droshaen (Ffynhonnell: StatsCymru, 2021; MALIC, 2019)**




Roeddem wedi eithrio'r ALlau hynny a oedd â chyfradd gofal 15% yn is na'r disgwyl yn 2020 o'r grŵp cynyddol; yn yr un modd, dim ond os oedd eu cyfradd gofal 15% yn is na'r disgwyl, yn seiliedig ar amddifadedd, yr oeddem wedi cynnwys ALlau yn y grŵp cyfraddau gofal is. Diben hyn oedd ceisio nodi'r ALlau hynny sy'n mynd o'i chwmpas hi mewn ffordd wahanol, ac i gyfrif am amddifadedd yn ein dadansoddiadau. Arweiniodd hyn at eithrio un ALl o'r grŵp cyfradd gofal cynyddol gan fod y gyfradd gofal a ragwelwyd yn fwy na 15% yn is na'r disgwyl yn 2020.

Creodd hyn ddau grŵp: ALlau â chyfraddau gofal gostyngol ac ALlau â chyfraddau gofal cynyddol. Dim ond dau ALl oedd yn y grŵp cyfraddau gofal gostyngol, ond mae iddynt wahaniaeth amlwg iawn mewn perthynas â chyfraddau gofal holl ALlau eraill Cymru. Cyfanswm nifer yr ymatebwyr yn y grŵp gofal gostyngol yw 70, a 413 yn y grŵp gofal cynyddol o 10 o ALlau (gweler yr adran Canfyddiadau, Tabl 3 ar gyfer ALlau dethol).

## *Beth yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau ym marn arweinwyr a gweithwyr am ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gofal?*

*Dull gweithredu* Aethom ati i gymharu ymatebion arweinwyr a gweithwyr gan ddefnyddio'r canlynol:

- Y saith ffactor.
- Tair is-raddfa gwerth.
- Yr ymatebion i bob astudiaeth achos.
- Demograffeg: oedran, pa un a oeddent yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig ai peidio.

Mae'r dadansoddiad hwn yn ystyried pob arweinydd a phob ymatebydd – nid yw'n dadgyfuno hyn yn ôl ALl. (Nid yw hyn yn bosibl oherwydd nifer isel yr arweinwyr ym mhob ALl.) Noder bod rhai o'r cwestiynau i'r arweinwyr yn gofyn sut y byddent yn ymateb a sut yr oeddent yn meddwl y byddai gweithwyr yn eu ALl yn ymateb.

Cynhaliwyd dadansoddiad deunewidyn (profion-t) i ddechrau, ac yna atchweliad logistaidd.

## *A oes yna wahaniaethau rhwng ALlau sydd â chyfraddau gofal uwch neu is na'r hyn y gellid eu disgwyl?*

Cafodd awdurdodau lleol â chyfraddau gofal gostyngol eu cymharu ag ymatebwyr o awdurdodau lleol â chyfraddau gofal cynyddol:

- Y saith ffactor.
- Tair is-raddfa gwerth.
- Yr ymatebion i bob astudiaeth achos.
- Demograffeg: oedran, pa un a oeddent yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig ai peidio.

Cynhaliwyd dadansoddiad deunewidyn (profion-t) i ddechrau, ac yna atchweliad logistaidd.

# Atodiad D: Tablau Barn yr Ymatebwyr

### Tabl D1: Barn yr ymatebwyr ar ffactorau sy'n dylanwadu ar y gyfradd gofal yng Nghymru

| | Ddim yn ffactor | | Ffactor bach | | Ffactor | | Ffactor pwysig | | Ffactor pwysig iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **n** | % | **n** | % | **n** | % | **n** | % | **N** | % |
| **Cynnydd mewn tlodi** (n=680) | 4 | 0.6 | 43 | 6.3 | 233 | 34.3 | 222 | 32.7 | 178 | 26.2 |
| **Cynnydd mewn cam-drin domestig** (n=682) | 1 | 0.2 | 10 | 1.5 | 135 | 19.8 | 301 | 44.1 | 235 | 34.5 |
| **Cynnydd mewn ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant** (n=683) | 2 | 0.3 | 27 | 4 | 224 | 32.8 | 270 | 39.5 | 160 | 23.4 |
| **Mwy o yfed neu gymryd cyffuriau ymhlith rieni** (n=682) | 10 | 1.5 | 30 | 4.4 | 203 | 29.8 | 274 | 40.2 | 165 | 24.2 |
| **Toriadau mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd** (n=678) | 8 | 1.2 | 49 | 7.2 | 169 | 24.9 | 198 | 29.2 | 254 | 37.5 |
| **Toriadau mewn gwasanaethau cyffredinol i deuluoedd** (n=679) | 9 | 1.3 | 49 | 7.2 | 168 | 24.7 | 221 | 32.6 | 232 | 34.2 |
| **Mwy o ffocws ar risg yn y gwasanaethau cymdeithasol** | 20 | 3.0 | 84 | 12.4 | 239 | 35.3 | 228 | 33.6 | 107 | 15.8 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (n=678) | | | | | | | | | | |
| **Toriadau yn y gwasanaethau cymdeithasol** (n=681) | 34 | 5.0 | 96 | 14.1 | 177 | 26 | 179 | 26.3 | 195 | 28.6 |

### Tabl D2: Barn ymatebwyr am ddylanwad asiantaethau neu grwpiau ar y gyfradd gofal yn eu ALI

| | Ddim yn ffactor | | Ffactor bach | | Ffactor | | Ffactor pwysig | | Ffactor pwysig iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **n** | **%** | **n** | **%** | **n** | **%** | **N** | **%** | **n** | **%** |
| **Ysgolion** (n=693) | 14 | 2.0 | 89 | 12.8 | 304 | 43.9 | 204 | 29.4 | 82 | 11.8 |
| **Ymwelwyr iechyd** (n=693) | 11 | 1.6 | 65 | 9.4 | 295 | 42.6 | 240 | 34.6 | 82 | 11.8 |
| **Yr heddlu** (n=688) | 6 | 0.9 | 30 | 4.4 | 254 | 36.9 | 282 | 41.0 | 116 | 16.9 |
| **Barnwyr a'r llysoedd** (n=695) | 3 | 0.4 | 15 | 2.2 | 106 | 15.3 | 198 | 28.5 | 373 | 53.7 |
| **Cyfreithwyr ALlau** (n=692) | 17 | 2.5 | 56 | 8.1 | 222 | 32.1 | 254 | 36.7 | 143 | 20.7 |
| **Gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr llinell** (n=702) | 4 | 0.6 | 5 | 0.7 | 99 | 14.1 | 293 | 41.7 | 301 | 42.9 |
| **Uwch-reolwyr yn yr ALI** (n=694) | 5 | 0.7 | 18 | 2.6 | 111 | 16.0 | 274 | 39.5 | 286 | 41.2 |

### Tabl D3: Barn yr ymatebwyr am eu ALl

| *Yn fy ALl i rydym yn …* | Cytuno'n gryf | | Cytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | Anghytuno | | Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | n | % | n | % | n | % | n | % | n | % |
| **Pwysleisio gweithio i gefnogi teuluoedd** (n=683) | 399 | 58.4 | 246 | 36.0 | 26 | 3.8 | 7 | 1.0 | 5 | 0.7 |
| **Sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel** (n=683) | 427 | 62.5 | 222 | 32.5 | 26 | 3.8 | 2 | 0.3 | 6 | 0.9 |
| **Rhoi plant mewn gofal dim ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol** (n=682) | 340 | 49.9 | 243 | 35.6 | 68 | 10.0 | 24 | 3.5 | 7 | 1.0 |
| **Cadw'r plant cywir gartref neu mewn gofal** (n=681) | 204 | 30.0 | 281 | 41.3 | 152 | 22.3 | 38 | 5.6 | 6 | 0.9 |
| **Gweithio'n galed i sicrhau bod plant yn dychwelyd adref os byddant yn cael eu rhoi mewn gofal** (n=681) | 232 | 34.1 | 297 | 43.6 | 98 | 14.4 | 42 | 6.2 | 12 | 1.8 |

**Tabl D4: Barn y gweithwyr am yr arweinwyr yn eu ALl**

| *Mae'r arweinwyr (e.e. pennaeth y gwasanaethau/yr uwch-reolwyr/cyfarwyddwr y gwasanaethau) yn fy ALl yn ...* | **Cytuno'n gryf** | | **Cytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Anghytuno** | | **Anghytuno'n gryf** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **n** | % | **n** | % | **n** | % | **N** | % | **n** | % |
| **Rhoi'r ymarferwyr gyntaf, a'r rheolwyr yn ail** (n=619) | 84 | 13.6 | 202 | 32.6 | 179 | 28.9 | 125 | 20.2 | 29 | 4.7 |
| **Meddu ar werthoedd cryf, cadarnhaol** (n=618) | 187 | 30.3 | 307 | 49.7 | 97 | 15.7 | 23 | 3.7 | 4 | 0.7 |
| **Ymddiddori'n bennaf mewn cyllidebau a gweinyddu** (n=620) | 37 | 6.0 | 111 | 17.9 | 275 | 44.4 | 175 | 28.2 | 22 | 3.6 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysleisio gweithio gyda theuluoedd i gadw plant gartref lle bo hynny'n bosibl** (n=621) | 199 | 32.1 | 344 | 55.4 | 62 | 10.0 | 15 | 2.4 | 1 | 0.2 |
| **Pwysleisio amddiffyn plant rhag niwed** (n=620) | 288 | 46.5 | 294 | 47.4 | 27 | 4.4 | 9 | 1.5 | 2 | 0.3 |
| **Ofni sylw negyddol yn y cyfryngau neu mewn arolygiadau** (n=619) | 46 | 7.4 | 105 | 17.0 | 254 | 41.0 | 171 | 27.6 | 43 | 7.0 |
| **Canolbwyntio ar yr hyn sydd orau ar gyfer pob plentyn** (n=618) | 202 | 32.7 | 303 | 49.0 | 84 | 13.6 | 26 | 4.2 | 3 | 0.5 |
| **Gwrth risg** (n=616) | 33 | 5.4 | 128 | 20.8 | 227 | 36.9 | 190 | 30.8 | 38 | 6.2 |

### Tabl D5: Barn yr ymatebwyr am ymarfer eu ALl

| ***Mae fy ALl ...*** | **Cytuno'n gryf** | | **Cytuno** | | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | | **Anghytuno** | | **Anghytuno'n gryf** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **n** | % | **n** | % | **n** | % | **n** | % | **n** | % |
| Yn meddu ar set gyson o werthoedd (n=676) | 179 | 26.5 | 354 | 52.4 | 95 | 14.1 | 43 | 6.4 | 5 | 0.7 |
| Yn darparu hyfforddiant a | 198 | 29.1 | 356 | 52.3 | 86 | 12.6 | 35 | 5.1 | 6 | 0.9 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| goruchwyliaeth i gefnogi gweledigaeth ymarfer yr ALl (n=681) | | | | | | | | | | |
| Yn meddu ar fframwaith(fframweithiau) ymarfer yr ydym yn ei/eu (d)defnyddio (n=671) | 165 | 24.6 | 321 | 47.8 | 142 | 21.2 | 37 | 5.5 | 6 | 0.9 |

## Tabl D6: Llwythi ffactorau safonedig a dibynadwyedd dangosyddion

| | Llwythi ffactorau (95% CI)*** (n=643) | Dibynadwyedd dangosyddion[a] |
|---|---|---|
| Ffactor 1 | | |
| ***Yn fy ALl i rydym yn ...*** | | |
| **Pwysleisio gweithio i gefnogi teuluoedd** | 0.73(0.68-0.77) | 53.11 |
| **Sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel** | 0.67(0.62-0.72) | 45.32 |
| **Rhoi plant mewn gofal dim ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol** | 0.82(0.78-0.85) | 66.93 |
| **Cadw’r plant cywir gartref neu mewn gofal** | 0.75(0.7-0.79) | 55.63 |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithio'n galed i sicrhau bod plant yn dychwelyd adref os byddant yn cael eu rhoi mewn gofal** | 0.74(0.69-0.78) | 54.33 |
| Ffactor 2 | | |
| ***Yng Nghymru, mae'r cyfraddau plant mewn gofal wedi cynyddu oherwydd ...*** | | |
| **Toriadau mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd** | 0.92(0.9-0.94) | 84.53 |
| **Toriadau mewn gwasanaethau cyffredinol i deuluoedd** | 0.93(0.91-0.95) | 86.65 |
| **Toriadau yn y gwasanaethau cymdeithasol** | 0.73(0.69-0.77) | 53.27 |
| Ffactor 3 | | |
| ***Mae fy ALl ...*** | | |
| **Yn meddu ar set gyson o werthoedd** | 0.77(0.72-0.82) | 59.33 |
| **Yn darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth i gefnogi gweledigaeth ymarfer yr ALl** | 0.78(0.74-0.83) | 61.47 |
| **Yn meddu ar fframwaith(fframweithiau) ymarfer yr ydym yn ei/eu (d)defnyddio** | 0.68(0.63-0.73) | 46.21 |
| Ffactor 4 | | |
| ***Yr asiantaethau sydd fwyaf tebygol o ddylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd plant mewn gofal yn eich ALl ...*** | | |
| **Ysgolion** | 0.86(0.83-0.9) | 74.39 |
| **Ymwelwyr iechyd** | 0.95(0.92-0.98) | 90.33 |
| **Yr heddlu** | 0.61(0.56-0.66) | 37.26 |

***Pob llwyth ffactor P≤ 0.001; [a]Swm yr amrywiant mewn dangosydd yn cael ei esbonio gan y newidyn cudd

### Tabl D7: Y tebygolrwydd o fod yn arweinydd yn erbyn gweithiwr yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg

| Newidyn | Y gymhareb tebygolrwydd (95% CI) n=675 | Esboniad |
|---|---|---|
| **Yn erbyn tynnu plentyn sy'n wynebu risg o'i gartref (Is-raddfa 1)** | 2.45(1.33-4.51)** | Mae'r siawns o fod yn arweinydd yn cynyddu 145.0% ar gyfer pob un newid uned yn is-raddfa 1. Mewn geiriau eraill, mae arweinwyr yn fwy yn erbyn tynnu plentyn sy'n wynebu perygl o'i gartref na gweithwyr. |
| **Ffafrio ailuno (Is-raddfa 3)** | 2.94 (1.73-4.99)*** | Mae'r siawns o fod yn arweinydd yn cynyddu 193.6% ar gyfer pob un newid uned yn is-raddfa 3. Mewn geiriau eraill, mae arweinwyr yn fwy o blaid ailuno na gweithwyr. |
| **Toriadau i wasanaethau (Ffactor 2)** | 0.70(0.52-0.92)* | Mae'r siawns o fod yn arweinydd yn cynyddu 30.4% ar gyfer pob un newid uned yn ffactor 2. Mewn geiriau eraill, mae arweinwyr yn llai tebygol na gweithwyr o roi pwyslais ar doriadau allanol i wasanaethau fel ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfraddau gofal yng Nghymru. |
| **Dylanwad y llysoedd a chyfreithwyr yr ALlau[a]** | 0.68(0.48-0.95)* | Mae'r tebygolrwydd o fod yn arweinydd yn gostwng 32.2% ar gyfer pob un newid uned yn y ffactor llysoedd. Mewn geiriau eraill, mae arweinwyr yn llai tebygol na gweithwyr o gredu bod y llysoedd a chyfreithwyr yr ALlau yn dylanwadu ar ba un a yw plentyn yn mynd i ofal yn ei ALl. |

*p ≤ 0.05; ** p ≤0.01; *** p ≤0.001

a Roedd arweinwyr hefyd yn llai tebygol o roi pwyslais ar asiantaethau cymunedol megis yr heddlu, ysgolion a gwasanaethau iechyd fel ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfradd y plant sydd mewn gofal yn eu hardal (ffactor 4). Fodd bynnag, oherwydd unllinedd â'r ffactor llysoedd, ni ellid cynnwys y newidyn hwn yn y model atchweliad. Pan gafodd y ffactor llysoedd ei ddisodli gan ffactor 4, roedd y gymhareb

tebygolrwydd yn 0.69(95% CI 0.49-0.98), sy'n golygu bod y tebygolrwydd o fod yn arweinydd yn gostwng 31.1% ar gyfer pob un newid uned yn ffactor 4.

### Tabl D8: Y siawns o fod yn ymatebydd o ALl â chyfraddau gofal cynyddol yn erbyn cyfraddau gofal gostyngol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

| Newidyn | Y gymhareb tebygolrwydd (95% CI) n=429 | Esboniad |
|---|---|---|
| **Yn erbyn tynnu plentyn sy'n wynebu risg o'i gartref (is-raddfa 1)** | 0.51 (0.30-0.85)* | Mae'r siawns o fod yn ymatebydd o ALl sydd â chyfradd gofal gynyddol yn gostwng 49.3% ar gyfer pob un newid uned yn is-raddfa 1. Mewn geiriau eraill, mae ymatebwyr o ALlau â chyfraddau gofal cynyddol lai yn erbyn tynnu plentyn sydd mewn perygl o'i gartref nag ALlau sydd â chyfraddau gostyngol. |
| **Sgôr risg astudiaeth achos 2** | 2.08 (1.22-3.56)* | Mae'r siawns o fod yn ymatebydd o ALl â chyfradd gofal gynyddol yn cynyddu 108.2% ar gyfer pob un newid uned yn y sgôr risg. Mewn geiriau eraill, mae ymatebwyr o ALlau â chyfraddau gofal cynyddol yn fwy gwrth risg nag ALlau â chyfraddau gostyngol. |
| **Agwedd ALlau at risg (Ffactor 1)[a]** | 0.40 (0.23-0.71)** | Mae'r siawns o fod yn ymatebydd o ALl â chyfradd gofal gynyddol yn gostwng 59.9% ar gyfer pob un newid uned yn ffactor 1. Mewn geiriau eraill, mae ymatebwyr o ALlau â chyfraddau gofal cynyddol yn llai hyderus bod eu ALl yn cadw plant yn ddiogel a, lle bo hynny'n |

bosibl, gartref, nag ALlau sydd â chyfraddau gostyngol.

$^{*}p \leq 0.05$; $^{**} p \leq 0.01$

[a] Roedd ymatebwyr o ALlau â chyfraddau cynyddol hefyd yn llai tebygol o deimlo bod gan eu ALl y gweithdrefnau ar waith i gefnogi gweledigaeth ymarfer yr ALl (ffactor 3), megis hyfforddiant addas. Fodd bynnag, oherwydd unllinedd â ffactor 1, ni ellid cynnwys y newidyn hwn yn y model atchweliad. Pan gafodd ffactor 1 ei ddisodli gan ffactor 3, roedd y gymhareb tebygolrwydd yn 0.51 (95% CI 0.31-0.84), sy'n golygu bod y tebygolrwydd o fod yn ymatebydd o ALl â chyfradd gofal gynyddol yn gostwng 49.2% ar gyfer pob un newid uned yn ffactor 3.